# Gofal y fam gath

Gofal / Caredigrwydd

Mewn blociau mawr o fflatiau roedd Blodwen y fam gath yn byw gyda'i pherchennog. Gan fod perchennog Blodwen yn byw ar y llawr uchaf byddai'n rhaid i'r gath fynd i fyny ac i lawr y grisiau ddwywaith, dair y dydd. Roedd ei pherchennog wedi gwneud twll neu fflap arbennig yn y drws er mwyn iddi gael mynd yn ôl a blaen fel y mynnai.

Cafodd Blodwen bedair o gathod bach. Roedd ei pherchennog wrth ei bodd efo'r cathod bach. Roedd hi wedi dotio. "Y petha bach dela welsoch chi erioed," meddai'i wrth ei chymydog un bore.

Yn ystod y dydd roedd perchennog Blodwen yn gweithio'n y ddinas. Byddai'n gadael yn y bore bach cyn i Blodwen godi o'i basged. Erbyn amser cinio byddai Blodwen, hithau wedi gadael y tŷ ac wedi mynd i hela yn y caeau gerllaw. Ond roedd rhywbeth dychrynllyd yn digwydd yn y fflat. Roedd y perchennog wedi anghofio diffodd y tân trydan ac roedd ymyl y gadair wedi dechau llosgi. Sylwodd un o'r cymdogion bod mwg yn dod o'r fflat. Ffoniodd 999 am y frigâd dân. Cyn pen dim roedd dwy frigâd dân a deg o ddynion wrthi'n ceisio diffodd y tân yn y fflat. Pan gyrhaeddodd Blodwen yn ôl, a gweld y dynion tân o gwmpas ymhob man aeth yn syth i mewn i'r fflat ac i'r gegin lle roedd ei basged. Cydiodd yn sgrepan un gath fach a'i chario i lawr y grisiau i ddiogelwch. Gwnaeth yr un peth efo'r tair arall.

Erbyn hyn roedd perchennog y fflat wedi dychwelyd. Cafodd fraw ond roedd y tân wedi'i ddiffodd erbyn hyn. Roedd llawer o'r dodrefn wedi'u llosgi'n ulw. Cofiodd yn sydyn am Blodwen a'r cathod bach. Rhedodd ar ei hunion i'r gegin. Roedd y fasged wedi llosgi'n ulw. Ond ble roedd Blodwen a'r cathod bach?

"Welsoch chi'r gath a'r cathod bach?" gwaeddodd y perchennog yn ei braw.

"Na! welais i mo'r gath na'i chathod bach," meddai'r dyn tân yn ddigon swta. Rhuthrodd y perchennog yn wyllt i'r ystafell fyw lle roedd y dynion tân yn codi'r carpedi ac yn archwilio'r dodrefn. "Welsoch chi'r gath?" gofynnodd y perchennog.
"Na," oedd yr ateb bob tro.
Y noson honno cafodd y perchennog fynd i gysgu i dŷ cymydog yn y fflat islaw. Wnaeth hi ddim cysgu fawr ddim; roedd hi'n poeni am Blodwen a'i chathod bach. Beth petae nhw wedi llosgi i farwolaeth?
Cododd yn fuan fore drannoeth a mynd yn syth i'r fflat. Pan oedd hi'n dringo i fyny'r grisiau pwy oedd yn mynd o'i blaen efo cath fach yn ei cheg ond Blodwen. Agorodd y drws iddi a beth oedd yn gorwedd ar y llawr yr ochr arall ond tair o gathod bach. Roedd Blodwen yn cario'r olaf i mewn.
Cafodd Blodwen a'i chathod bach groeso mawr.

Gwna fi, O Dduw, yn blentyn gofalus bob amser. Amen.

✦ Ydych chi wedi clywed am straeon tebyg am gathod?
✦ Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r fam gath?